Daearyddiaeth

Daearyddiaeth

Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol o Ddaearyddiaeth er y byddai gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a gafwyd drwy fod wedi astudio Daearyddiaeth TGAU yn gymorth. Mae gradd C mewn Mathemateg TGAU yn fanteisiol.

Cysylltwch â: Mrs Rh. Jones

Strwythur a Chynnwys y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)		Uwch (UG + U2)
G1: Amgylcheddau Ffisegol Newidiol (Papur Ysgrifenedig 1 awr 30 munud) Dwy Thema Ymchwilio i newid hinsawdd Ymchwilio i newid tectonig a hydrolegol Tri chwestiwn strwythuredig gyda deunydd ysgogi, un ohonynt yn profi gwaith ymchwil/gwaith maes Pwysiad: UG 50% U2 25%		**G3: Themâu Cyfoes ac Ymchwil mewn Daearyddiaeth** (Papur Ysgrifenedig 2 awr 15 munud) Adran A – 1 awr 30 munud Dau draethawd – un o bob un o'r ddwy thema gyfoes. Un thema yn dod o'r tri dewis ffisegol ac un thema o'r tri dewis dynol. Ceir dewis o ddau gwestiwn ar gyfer pob thema. Adran B – 45 munud Ar gyfer pob un o'r 10 thema, fe geir maes testun a osodir gan y Bwrdd yn Rhagfyr (cyfres Ionawr) a Mai (cyfres Fehefin) y flwyddyn flaenorol. Mae'r ymgeiswyr yn llunio a gweithredu ymholiad ymchwil yn seiliedig ar eu thema dewisol ac ar eu maes testun rhagnodol. Bydd hwn yn cael ei asesu gan gwestiwn dwyran yn seiliedig ar ymholiad ymchwil ac ar ganlyniadau eu hymchwil. Dosberthir y cwestiwn hwn wedi 1 awr 30 munud pan fydd Adran A yn cael ei rhoi i mewn. Pwysiad: U2 30%
G2: Amgylcheddau Dynol Newidiol (Papur Ysgrifenedig 1 awr 30 munud) Dwy Thema Ymchwilio i newid poblogaeth Ymchwilio i newid aneddiadau Tri chwestiwn strwythuredig gyda deunydd ysgogi, un ohonynt yn profi gwaith ymchwil/gwaith maes Pwysiad: UG 50% U2 25%		G4: Cynaliadwyedd (Papur Ysgrifenedig 1 awr 45 munud) Cyflenwad Bwyd Cynaliadwy Cyflenwad Dŵr Cynaliadwy Egni Cynaliadwy Dinasoedd Cynaliadwy Deunydd wedi ei ryddhau o flaen llaw yn Rhagfyr a Mai cyn yr arholiad ar gyfer Ymarfer Gwneud Penderfyniad Pwysiad: U2 20%

UG = 2 uned (astudir ym Ml.12) gydag U2 = 2 uned (astudir ym Ml.13) yn gyfartal i Lefel A llawn

Daearyddiaeth

Daearyddiaeth

Amcanion Asesiad:

AA1: Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar gwblhau **cyrsiau UG a Safon Uwch** dylai fod yr ymgeiswyr wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

• brosesau ffisegol, dynol ac amgylcheddol dewisol sydd wrth wraidd cysyniadau allweddol mewn Daearyddiaeth

• y cysyniadau allweddol o le, gofod, amrywiaeth, cyd-ddibyniaeth, rhyngweithio pobl-amgylchedd, y prosesau cysylltiedig â'r rhain, a newid dros amser

• pwysigrwydd graddfa fel syniad daearyddol

• enghreifftiau cyd-destunol ar ystod o raddfeydd

AA2: Cymhwysiad

Ar gwblhau **cwrs UG a Safon Uwch** dylai fod yr ymgeiswyr wedi datblygu gallu I arddangos:

• dealltwriaeth o gymhwysiad a pherthnasedd Daearyddiaeth drwy ddadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, materion a safbwyntiau daearyddol

• cymhwyso eu dealltwriaeth mewn cyd-destunau anghyfarwydd

AA3: Sgiliau

Ar gwblhau **cwrs UG a Safon Uwch** dylai fod yr ymgeiswyr wedi datblygu'r gallu i:

• ddefnyddio ystod o sgiliau a thechnegau, gan gynnwys y defnydd o fapiau a delweddau ar wahanol raddfeydd sy'n angenrheidiol ar gyfer astudiaeth ddaearyddol

• cyflawni ymchwil, a gwaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan gynnwys gwaith maes, fel sy'n addas i'r testunau a ddewiswyd

• defnyddio amrywiaeth o ddulliau, sgiliau a thechnegau, technolegau gwybodaeth modern, gan gynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol, fel sy'n addas i'r cynnwys; ymchwilio i gwestiynau a materion, dod i

Yn ychwanegol, dylai **ymgeiswyr safon Uwch**

ymgymryd fel **unigolion** â gwaith ymchwil/archwilio, gan gynnwys gwaith maes;
ehangu eu dealltwriaeth o syniadau, cysyniadau a phrosesau daearyddol;
adnabod a dadansoddi'r cysylltiadau rhwng y gwahanol agweddau o ddaearyddiaeth;
dadansoddi a syntheseisio gwybodaeth ddaearyddol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac amrediad o ffynonellau;
ystyried syniadau a datblygiadau newydd am natur newidiol Daearyddiaeth yn yr 21ain ganrif;
myfyrio'n feirniadol a gwerthuso potensial a chyfyngiadau agweddau a dulliau a ddefnyddir o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Dilyniant 18+:

Derbynnir Daearyddiaeth yn eang mewn prifysgolion – fel pwnc gwyddonol neu bwnc celfyddydol. Mae'n ddefnyddiol iawn mewn llawer o yrfaoedd – nid yn unig er mwyn medru dysgu Daearyddiaeth!

Daearyddiaeth